

# Dewch yn hyrwyddwr Big Pedal Sustrans



Sefydliadau, fel awdurdodau lleol, sy'n gallu cofrestru ar gyfer cyfrif hyrwyddwr Big Pedal Sustrans am ddim



Big Pedal Sustrans yw'r her feicio, cerdded a sgwtera fwyaf rhwng ysgolion

Dyddiau'r her: **22 Ebrill – 5 Mai 2020**

**Sut allwn ni gymryd rhan?**

Anfonwch epost at [bigpedal@sustrans.org.uk](mailto:bigpedal@sustrans.org.uk) gan ddweud eich bod yn dymuno bod yn hyrwyddwr Big Pedal Sustrans





**“Y peth calonogol yw bod staff yr ysgolion yn ei chael yn hawdd cynnal yr her ac mae'r holl ysgolion sy'n cymryd rhan un flwyddyn wedi dewis cymryd rhan mewn blynyddoedd canlynol!”**

Judith, Teithio Llesol Cyngor Sir Cumbria

Yn 2019, gwnaeth dros 1,682 o ysgolion 3,869,618 o siwrneiau i'r ysgol ar feic, ar droed ac ar sgwter. Helpwch ni i hyrwyddo Sustrans Big Pedal a gweithio tuag at eich amcanion eich hunain o:

- wella iechyd
- hybu iechyd meddwl a llesiant
- lleihau tagfeydd traffig

### Rydym yn

1. trefnu cystadleuaeth sy'n para pythefnos
2. rhoi cyfrif hyrwyddwr i chi sydd yn cynnwys adnoddau monitro a deunyddiau hyrwyddo
3. rhannu gwybodaeth gyfredol â chi am yr hyn sy'n digwydd gyda'r ymgyrch yn genedlaethol

### Rydych chi'n

1. hyrwyddo Sustrans Big Pedal i ysgolion yn eich ardal gan ddefnyddio ein templedi ebost, taflenni gwybodaeth a mwy
2. defnyddio ein hadnoddau monitro i gyfrifo ystadegau hwyllog ar gyfer adroddiadau a datganiadau i'r wasg
3. gallwch drefnu eich rafflau gwobrau, cystadlaethau a chyfleoedd hyrwyddo yn y wasg eich hunain

Am fwy o wybodaeth, ewch i wefan Big Pedal Sustrans [www.bigpedal.org.uk](http://www.bigpedal.org.uk)

**Sustrans yw'r elusen sy'n ei gwneud yn haws i bobl gerdded a beicio.**

Rydym yn cysylltu pobl a llfeydd, yn creu cymunedau byw, yn trawsnewid y daith i'r ysgol ac yn hwyluso taith hapusach ac iachach i'r gwaith.

Ymunwch â ni ar ein siwrne.

[www.sustrans.org.uk](http://www.sustrans.org.uk)

 [sustrans](https://www.facebook.com/sustrans)

 [@sustrans](https://twitter.com/sustrans)

Y MUNWCH A'R MUDIAD  
**sustrans**  
JOIN THE MOVEMENT 